# Y CABINET DYDD MAWRTH, 15 RHAGFYR 2015

**Yn bresennol-**
Y Cynghorwr: Dyfed Wyn Edwards, Dyfrig L. Siencyn, Peredur Jenkins, John Wynn Jones, Dafydd Meurig, W. Gareth Roberts, Gareth Thomas, Ioan Thomas, Mandy Williams-Davies a Angela Russell

**Hefyd yn bresennol-**
Dilwyn Williams (Prif Weithredwr), Morwena Edwards (Cyfarwyddwr Corfforaethol), Iwan Trefor Jones (Cyfarwyddwr Corfforaethol), Iwan G. Evans (Pennaeth Gwasanaeth Cyfreithiol), Hawis Jones (Rheolwr Cynllunio Strategol a Pherfformiad), Dewi Morgan (Uwch Reolwr - Refeniw a Risg) a Geraint Owen (Pennaeth Adran Cefnogaeth Gorfforaethol
)

## 1. YMDDIHEURIADAU

Croesawyd Aelodau'r Cabinet, y Cyng. Angela Russell a Swyddogion i'r cyfarfod. Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cyng. Mair Rowlands.

## 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Nid oedd unrhyw ddatganiad o fuddiant personol.

## 3. MATERION BRYS

Nid oedd unrhyw faterion brys.

## 4. MATERION YN CODI O BWYLLGORAU CRAFFU

Croesawyd Gadeirydd y Pwyllgor Craffu Cymunedau, y Cyng. Angela Russell, i'r cyfarfod gan y Cyng. Dyfrig Siencyn.
Croesawyd y cyfle, gan yr holl Aelodau oedd yn bresennol, i gryfhau'r llinellau cyfathrebu rhwng y Cabinet a Phwyllgorau Craffu. Nodwyd mai arbrawf oedd cyflwyno'r adroddiad oedd ger bron, er mwyn rhannu argymhellion Pwyllgorau a Gweithgorau Craffu gydag Aelodau'r Cabinet, ac er mwyn derbyn ymateb ffurfiol Aelodau'r Cabinet i'r argymhellion hynny.

Ymatebion i'r adroddiad a gyflwynwyd –

<u>A. Eitem – Yr Iaith Gymraeg a'r Drefn Gynllunio</u>

Cadarnhaodd y Cyng. Dafydd Meurig y byddai yn croesawu mewnbwn y Pwyllgor Iaith a'r Pwyllgor Craffu Cymunedau i'r broses o greu'r Canllaw Polisi Cynllunio

newydd o fewn y Cynllun Datblygu Lleol.

B. Eitem – Cytundebau Adran 106

Cadarnhaodd y Cyng. Dafydd Meurig ei fod yn croesawu argymhelliad y Pwyllgor Craffu Cymunedau i greu gweithgor o Gynghorwyr a Swyddogion fyddai'n cydweithio â phobl broffesiynol yn y maes er mwyn edrych ar amrywiol opsiynau o sut i weithredu Cytundebau Adran 106.

C. Eitem – Cludiant Ôl-16

Amlinellwyd bryderon y Pwyllgor Craffu Cymunedau, sef eu bod yn dal i aros am ymateb i'w argymhellion a gyflwynwyd i'r Aelod Cabinet Addysg fis Rhagfyr 2014. Ymatebodd y Cyng. Gareth Thomas i'r ymholiadau yn y drefn y'i cyflwynwyd yn yr adroddiad i'r cyfarfod –

a)

i. Unwaith y bydd yr Adran Addysg yn ymwybodol o sefyllfa o orlenwi, maent yn ymateb iddi'n syth, fel arfer drwy ddarparu mwy o fysus.
ii. Mae'n trafodaethau'n parhau gyda chwmnïau bysus er mwyn ceisio datrys y sefyllfa.
iii. Mae hwn yn fater sy'n dod o dan reolaeth Llywodraeth Cymru, a chytunodd yr Aelod Cabinet Rheoleiddio i gysylltu â'r Llywodraeth er mwyn ceisio datrys y sefyllfa.
iv. Gan nad oedd hwn yn argymhelliad a gyflwynwyd gan y Gweithgor Craffu, cytunodd y Cyng. Gareth Thomas i wneud ymholiadau pellach ac adrodd yn ôl i'r Pwyllgor Craffu cyn Medi 2016, yn y gobaith y byddai modd gweithredu system newydd erbyn dechrau blwyddyn addysgol 2016/17.

Cadarnhawyd y byddai'r Aelod Cabinet yn ail ymddangos ger bron y Pwyllgor Craffu i gadarnhau pa argymhellion sydd wedi eu gwireddu er mwyn eu gweithredu o fis Medi 2016, ac hefyd y byddai'r Aelod Cabinet yn cynnig adroddiadau yn y cyfamser pe byddai materion yn codi ble byddai mewnbwn Craffu o gymorth.

Cytunwyd i barhau gyda'r drefn o drafod materion sy'n codi o Bwyllgorau Craffu mewn cyfarfodydd Cabinet i'r dyfodol. Byddai cofnod o'r drafodaeth hon yn cael ei gylchredeg ymysg aelodau Pwyllgorau Craffu.

**5. COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD AR Y 24AIN O DACHWEDD 2015**

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion y Cabinet a gynhaliwyd ar 24ain o Dachwedd 2015.

**6. TROSOLWG PERFFORMIAD CYNGOR GWYNEDD 2015/16 - MEYSYDD AMGYLCHEDD, AMDDIFADEDD, ECONOMI A CHYMUNED**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Cyng. Dyfed Wyn Edwards.

**PENDERFYNIAD**

Derbyniwyd a nodwyd yr wybodaeth a gyflwynwyd yn yr adroddiad i'r cyfarfod.

**7. DATGANIAD ANSAWDD BLYNYDDOL CARTREFI PRESWYL A NYRSIO GWYNEDD 2014/15**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Cyng. W Gareth Roberts.
Eiliwyd gan y Cyng. Dyfrig Siencyn.

**PENDERFYNIAD**

Mae'r Cabinet yn derbyn y 'Datganiad Ansawdd Blynyddol' ar gyfer 2014/15 (Atodiad 1 i'r adroddiad i'r cyfarfod).
Cytunwyd i dderbyn 'Datganiad Ansawdd Blynyddol' fel eitem flynyddol barhaus i'r Cabinet yn y dyfodol.

**8. ADRODDIAD GWERTHUSO PERFFORMIAD AROLYGAETH GOFAL A GWASANAETHAU CYMDEITHASOL 2014/15**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Cyng. W Gareth Roberts.
Eiliwyd gan y Cyng. Ioan Thomas.

**PENDERFYNIAD**

Derbyn yr Adroddiad Gwerthuso Perfformiad 2014/15 a gyflwynwyd fel Atodiad 1 i'r cyfarfod.

**9. BLAENRAGLEN WAITH CABINET CYNGOR GWYNEDD**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Cyng. Dyfed Wyn Edwards.

**PENDERFYNIAD**

Cymeradwyo'r Flaenraglen a gynhwyswyd yn y papurau i'r cyfarfod.

Dechreuodd y cyfarfod am 1.00 y.h. a daeth i ben am 2.25 y.h.

**CADEIRYDD**